



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Arloesi

## GL Jones Playgrounds

# Partneriaeth Gogledd Cymru yn parhau i ffynnu



(Chwith i'r dde), cyswllt KTP Joseph Ankers; Gareth Hughes, Grŵp Llandrillo Menai ac Aaron Jones, GL Jones Playgrounds.

Mae **GL Jones Playgrounds** yn gwmni teuluol wedi'i leoli ym Methesda, Gwynedd. Yn cyflogi 16 o staff, maent yn arbenigo mewn dylunio a gweithgynhyrchu offer maes chwarae – gan ennill gwobrau am ragoriaeth ac arloesi a gwerthu cynhyrchion ledled y byd.

Yn 2010, gwnaeth GL Jones gais llwyddiannus am Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (KPT). O ganlyniad bu hwn yn gyfnod allweddol yn esblygiad y busnes a arweiniodd at broses o ddylunio a gweithgynhyrchu llyfn, arloesi technolegol a thwf parhaus mewn allforio.

Mae'r cynllun Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) yn helpu busnesau i arloesi a thyfu drwy eu cysylltu hwy â phrifysgol ac unigolyn graddedig i weithio o fewn y busnes ar brosiect penodol. Gall brosiectau KTP bara rhwng 12 a 36 mis. Arweinir gan Innovate UK ac ariennir yn rhannol yng Nghymru gan grant gan Lywodraeth Cymru.

Arweiniodd prosiect GL Jones at fanteision sylweddol hirhoedlog hefyd ar gyfer dau o'r partneriaid eraill a fu'n cymryd rhan – Joseph Ankers, graddiwr peirianeg a'r sefydliad addysg Grŵp Llandrillo Menai. Dair blynedd yn ddiweddarach mae'r llwyddiant yn parhau.

### Llwyddiannau Allweddol Busnes:

- Cynnydd o 20% mewn cynhyrchiant
- Cynnydd o 7% yn eu cyfran o'r farchnad ar adeg pan oedd y farchnad yn cyfyngu
- Cynnydd o £183k mewn elw
- Enillydd Partneriaeth KTP Orau Cymru yn 2013
- Y Bartneriaeth Orau o blith y Goreuon yn y Deyrnas Unedig – cymeradwyaeth uchel

## Y Busnes

Roedd y penderfyniad i ymgeisio am y Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) yn rhan o strategaeth y cwmni i ehangu'r broses ddylunio, o'r cysyniad i'r gweithgynhyrchu. Roedd sicrhau bod y dyluniadau'n cael eu cynhyrchu'n broses drafferthus i GL Jones, gyda thros 70 o gamau â llaw ac roedd y cwmni'n cydnabod yr angen i integreiddio ei weithrediad Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD) gyda'i brosesau busnes ehangach.

Gan ymuno â Chanolfan Arloesi Menai (sy'n rhan o'r Grŵp Llandrillo Menai), ymgysylltodd GL Jones â'r myfyriwr graddedig Joseph Ankers ar leoliad dwy flynedd. Gweithiodd yn agos â'r coleg i ddatblygu a gweithredu proses o ddatblygu cynnyrch newydd. Gan fanteisio ar ddatblygiadau diweddaraf mewn galluoedd meddalwedd CAD, galluogodd y prosiect fynediad ledled y cwmni at luniau wedi'u rendro mewn 3D o offer a dyluniadau meysydd chwarae ym mhob cam o'r broses.

## Tair blynedd yn ddiweddarach...

"Roedd y Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth yn llwyddiant ysgubol ac yn fwy na thebyg y peth pwysicaf rydym wedi'i wneud fel busnes. Roedd angen ymdrech tîm go iawn a rhoddodd y bartneriaeth fynediad i ni at arbenigedd ac adnodd i ddarparu prosiect gwirioneddol drawsffurfiol.

"Ers cwblhau'r KTP mae'r farchnad ddomestig ar gyfer ein cynhyrchion wedi dod yn eithriadol o heriol, gyda phwysau ar ysgolion a chyllidebau'r awdurdod lleol. Er hynny, caniaaodd y galluoedd ychwanegol a ddaeth yn ei sgil i ni dyfu fel busnes. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf rydym wedi dyblu ein gwerthiannau allforio bron iawn ac yn awr rydym yn cludo nwyddau ar long i'r Unol Daleithiau, Awstralia a Sweden, yn ogystal ag Asia a'r Dwyrain Canol.

"Mae ein partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai wedi parhau, drwy ail KTP wedi'i chysylltu'n benodol at ein proses weithgynhyrchu yn ogystal â rhaglen Brentisiaeth y coleg erbyn hyn. Yn ogystal gwnaeth strwythur y KTP wneud i ni feddwl yn wahanol ynglŷn â'r ffordd rydym yn datblygu ein staff ein hunain. Anogodd ni i edrych yn greadigol ar y ffordd mae pobl yn gweithio o fewn y busnes."

**Aaron Jones, GL Jones Playgrounds Ltd**

## Y Partner Academaidd

Gweithiodd Grŵp Llandrillo Menai yn agos â GL Jones Playgrounds i sicrhau cyllid Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP). Roeddent hefyd yn dewis cyswllt cymwys a allai weithio'n effeithiol â'r busnes ar gyfer teuluoedd a datblygu fframwaith. Drwy hyn gellid rheoli'r prosiect dwy flynedd. Rhoddodd y gyfadran arbenigedd ar y datblygiadau diweddaraf mewn technegau technoleg dylunio. Roedd yn glust ar gyfer heriau a datrysiadau penodol.

Roedd y prosiect yn gyfan gwbl integredig gydag addysgu bob dydd y coleg. Galluogodd hyn staff a myfyrwyr i ehangu eu gwybodaeth a

### Llwyddiannau Allweddol y Partner Academaidd:

- Datblygu seilwaith i ehangu darpariaeth Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) yn y dyfodol
- Creu deunyddiau addysgu newydd ac atyniadol
- Cyfleoedd datblygu staff a myfyrwyr

phrofiad o'r feddalwedd Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD), a rhoi gwybodaeth ynghylch deunyddiau cwricwlwm ar ddylunio cynnyrch, cynaliadwyedd ac egwyddorion cylch bywyd cynnyrch. Prociodd y profiad y gwaith o ddatblygu strategaeth drosglwyddo ar gyfer Grŵp Llandrillo Menai.

### Tair blynedd yn ddiweddarach...

"Roedd y Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) â G.L. Jones Playgrounds yn weddnewidiad go iawn ac fe arweiniodd at strategaeth trosglwyddo gwybodaeth gadarn sydd eisoes yn dwyn ffrwyth. Bellach mae gennym dri aelod staff llawn amser o fewn yr uned trosglwyddo gwybodaeth sy'n gweithio gyda chyfadranau a busnesau gwahanol i adnabod y cyfleoedd ar gyfer prosiectau a phartneriaethau newydd. Mae'r tîm wedi sefydlu dwy Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) arall yn cynnwys Canolfan Arloesi Menai, yn ogystal ag un gyda'n Canolfan Technoleg Bwyd. Mae'r KTP gyntaf a reolir o'n campws Llandrillo ar fin dechrau ac mae rhai eraill mewn cyfnodau gwahanol o'r datblygiad.

"Mae sefydliadau'n treulio llawer o amser yn addysgu theori i fyfyrwyr ond rydym â gogwydd ymarferol iawn ac mae'r Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) yn gerbyd rhagorol wrth ddod â'r ddwy elfen at ei gilydd. Nid yn unig maent o fantais i'r busnes a'r cyswllt unigol ond maent yn ymgysylltu â'r gyfadran gyfan, staff a myfyrwyr, gan ein galluogi i ddatblygu a rhannu arferion gorau."

**Gareth Hughes, Grŵp Llandrillo Menai**

### Y Gweithiwr Cyswllt

Enillodd Joseph Ankers, gweithiwr Cyswllt Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) profiad a hyfforddiant amhrisiadwy drwy gydol ei leoliad am ddwy flynedd. Roedd ei allu i drosglwyddo gwybodaeth yn dilyn ei hyfforddiant yn y gweithle yn help mawr i'r tîm rheoli i drawsffurfio'r busnes ond ehangodd ei allu ef ei hunan fel arweinydd hefyd.

### Tair blynedd yn ddiweddarach...

Ar ôl cwblhau'r prosiect, cafodd Joseph rôl barhaol yn y busnes a goruchwyliodd y gwaith o sefydlu a gweithredu'r ail Bartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, cyn symud ymlaen at rôl uwch â busnes arloesol arall yng Nghymru. Mae Blizzard sydd wedi'i lleoli yng Ngwynedd yn cynhyrchu offer diogelwch thermal arobryn ar gyfer ystod o ddeunyddiau gwahanol ac mae profiad KTP Joseph wedi'i ei wneud yn ychwanegiad gwerthfawr i'r tîm.

#### Llwyddiannau Allweddol Cyswllt:

- Hyfforddiant a datblygiad personol
- Profiad rheoli
- Profiad o ddatblygu a mynd â chynhyrchion newydd i'r farchnad
- Cynnydd mewn ymwybyddiaeth fasnachol

I ddysgu rhagor am ariannu KTP yng Nghymru | 03000 6 03000  
innovation@wales.gsi.gov.uk | business.wales.gov.uk/expertisewales

Busnes | Business  
Cymru | Wales